BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Mawrth, 2014
am 2.00pm yng Ngholeg Menai, Bangor

YN BRESENNOL: Dafydd Evans (Cadeirydd), Grŵp Llandrillo Menai
Y Cyng. John Arwel Roberts, Cyngor Sir Ynys Môn
Geraint George, Cyngor Gwynedd
Arwel Ellis Jones, Cyngor Gwynedd
Rhodri Evans, Prifysgol Bangor (yn dirprwyo ar ran Jerry Hunter)
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru
Anwen Davies, Cyngor Gwynedd
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Harry Thomas, Cyngor Gwynedd
John R Jones, Medrwn Môn
Bethan Jones, Cyngor Sir Ynys Môn

HEFYD YN BRESENNOL: Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd

1. YMDDIHEURIADAU

Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Doris Adlam, Y Gwasanaeth Prawf
Y Cyng. Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Andy Jones, Y Gwasanaeth Prawf
Huw Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Aneurin Phillips, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Iwan Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Glyn Jones, Grŵp Llandrillo Menai
Y Cyng. Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd
Jerry Hunter, Prifysgol Bangor

2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22ain HYDREF 2013

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22ain Hydref 2013 yn gofnod cywir o'r drafodaeth a gafwyd. Barn y Bwrdd oedd nad oedd y prosiectau arfaethedig a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ac, o ganlyniad, ni fyddai'r gweithredau a nodwyd yn y cofnodion yn cael eu hailgyflwyno i'w gweithredu o dan nawdd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

2.2 UNRHYW FATERION YN CODI

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth a dderbyniwyd ganddo oddi wrth Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, yn gofyn am roi ystyriaeth i briodoldeb gwahodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i eistedd ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru.

Penderfynodd y BGLl i estyn gwahoddiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd hwn yn y dyfodol.

GWEITHRED(AU) YN CODI:
Anwen Davies i sicrhau bod gwahoddiad yn cael ei estyn i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

3. UCHELGAIS, GWELEDIGAETH, CYFEIRIAD STRATEGOL A DYFODOL Y BWRDD

Llongyfarchodd y Cadeirydd Anwen Davies ar ei phenodiad diweddar yn Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Hydref 2013) pryd y cytunwyd ar ei weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol – yn enwedig o fewn cyd-destun arian cyhoeddus yn lleihau a galwadau a disgwyliadau cynyddol dinasyddion o ran cyflenwi gwasanaethau yn y sector cyhoeddus. Cytunwyd ei bod yn amserol i bwyso a mesur trefniadau presennol er mwyn bwrw ymlaen â gweledigaeth a chyfeiriad y Bwrdd.

I ddilyn, cafwyd 2 gyflwyniad i aelodau'r Bwrdd – y cyntaf gan Harry Thomas, Prif Weithredwr Cyngor Sir Gwynedd, a'r ail gan Bethan Jones, Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn – ar y posibiliadau o ran datblygu uchelgais,

gweledigaeth a chyfeiriad strategol tra gwahanol ar gyfer y Bwrdd i'r dyfodol. Isod ceir crynodeb o'r prif bwyntiau allweddol:

a. Roedd cyfle da a phosibiliadau gwirioneddol o ran mabwysiadu uchelgais newydd, radical a blaengar gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd yng Ngogledd Orllewin Cymru;
b. Roedd cyllidebau sector cyhoeddus sy'n lleihau ynghyd â galw cynyddol yn gofyn am ymagwedd wahanol iawn tuag at reoli gwariant o fewn gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd i ddod – strategaethau wedi'u gwreiddio mewn ymyrraeth gynnar, rheoli galw ac osgoi costau sydd wedyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ariannol. Roedd angen i'r Bwrdd ystyried arwain ar ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer unigolion sydd ar ymylon gofal ar draws sbectrwm y gwasanaethau cyhoeddus;
c. Rhannwyd profiadau o safleoedd arfer orau o ar draws y ffin – oedd yn cynnwys llu o wasanaethau cyhoeddus (ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd yr oedd ymyriadau ym maes y blynyddoedd cynnar, addysg anghenion arbennig, integreiddio iechyd/gofal cymdeithasol, gwelliannau i ffyrdd o fyw/iechyd);
d. Roedd yn amserol i'r Bwrdd ystyried priodoldeb mabwysiadu strategaeth wahanol iawn i'r dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i hategu gan ddeallusrwydd, gwybodaeth a data;
e. Byddai'n ddoeth i'r Bwrdd ystyried mabwysiadu nifer fechan o feysydd blaenoriaeth allweddol fel y sail i'r hyn y byddai'n canolbwyntio arno dros y flwyddyn neu ddwy nesaf;
f. Roedd angen rhoi ystyriaeth i fabwysiadu'r 7 ffactor allweddol a nodwyd fel rhai sy'n cyfrannu tuag at fyrddau a phartneriaethau effeithiol - arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd, cyfeiriad strategol, strwythurau, ariannu, rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ac ymgysylltu â dinasyddion;
g. Er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a phendant, roedd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wybod yn union beth yw ei uchelgais gan sicrhau ei fod yn cytuno ar set o egwyddorion a dealltwriaeth gyffredin. Byddai hyn yn cynnwys set o sgiliau arweinyddiaeth fyddai'n ategu gwaith y Bwrdd i'r dyfodol;
h. Cyfeiriwyd at oblygiadau sylweddol y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Adroddiad Williams) ar gyfer Byrddau Gwasanaeth Lleol, partneriaethau a chydweithredu.

Roedd trafodaethau'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gonsensws o amgylch ymgymryd â thaith tuag at ei drawsnewid – gan fabwysiadu uchelgais a gweledigaeth wahanol a dynamig. Cyfeiriwyd yn bennaf at y canlynol:

- Yr angen i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch hyblygrwydd gwariant grant – fyddai'n gofyn am naratif a data cefnogol cryf;
- Cydnabyddiaeth o rôl Llywodraeth Cymru o ran sicrhau a chefnogi presenoldeb a chyfranogiad pob partner ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol;
- Gwreiddio uchelgais a blaenoriaethau'r BGLl i'r dyfodol mewn dull pendant, rhesymegol a doethach o weithio ac anelu am fod y gorau yn y dyfodol;
- Byddai dadansoddiad ystadegol o ffrydiau gwaith sydd wedi'u blaenoriaethu yn ffactor hanfodol wrth i'r Bwrdd fwrw ymlaen gyda'i uchelgais newydd gan alluogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth

mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth i'r dyfodol. I gefnogi'r swyddogaeth hon byddai gofyn cael chwistrelliad o arbenigedd yn yr Uned Partneriaethau Strategol;

- Dylid pennu ffurf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r dyfodol yn ôl ei swyddogaeth - y cam cyntaf yn y daith tuag at drawsnewid fyddai sesiwn ar gyfer y Bwrdd, wedi'i hwyluso'n allanol, ynghylch ei uchelgais, ei weledigaeth a'i gyfeiriad strategol.

PENDERFYNWYD:

- **Roedd aelodau'r BGLl yn cydnabod ei bod bellach yn amserol i ddatblygu uchelgais, gweledigaeth a chyfeiriad strategol newydd a blaengar ar gyfer y Bwrdd - gan roi mwy o hygrededd nag yn flaenorol i bontio'r bwlch ariannu mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau bod y modd y mae galw'n cael ei reoli yn cael ei gydlynu'n well a rhoi mwy o sylw i hyn (gwella systemau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn lleihau'r cynnydd mewn galw oherwydd methiannau o fewn y systemau hynny). Yn ogystal, cyflwyno rhaglen o ymyriadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiadau sy'n gyrru'r galw (cyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu);**
- **Cefnogi cyfeiriad strategol sy'n ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhwng:**
  - **Rheoli galw/gwariant yn effeithiol yn y tymor byr;**
  - **Ymyriadau amlasiantaethol effeithiol sy'n cael effaith tymor canol/hirdymor ar alwadau/gwariant/penderfynyddion o fewn gwasanaethau;**
  - **Datblygiadau sy'n cael eu gyrru gan arian grant cenedlaethol sydd wedi'i neilltuo (yn enwedig ym maes diogelwch cymunedol/plant a phobl ifanc); AC**
  - **Ymateb priodol a chymesur yng Ngwynedd ac Ynys Môn tuag at ofynion canllawiau Llywodraeth Cymru ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau (Cydamcanu – Cydymdrechu).**

- **Fel cam nesaf yn y daith tuag at drawsnewid y Bwrdd, roedd aelodau'r BGLl yn cytuno y dylid cael sesiwn wedi'i hwyluso'n allanol. Amcanion – mynegi uchelgais a gweledigaeth y Bwrdd ynghyd â'i brif feysydd blaenoriaeth dros y flwyddyn neu ddwy nesaf (fyddai'n darparu tystiolaeth o gynnydd y Bwrdd tuag at gyflawni'r uchelgais sy'n cael ei ddatblygu ganddo). Bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau (nod – ei gynnal yn ystod y 6-8 wythnos nesaf);**
- **Sicrhau datblygu cynllun gweithredu er mwyn gwireddu'r uchelgais a'r weledigaeth sy'n cael eu datblygu ar gyfer y Bwrdd – wedi'i wreiddio mewn egwyddorion SMART;**
- **Llywodraeth Cymru i gefnogi presenoldeb a chyfranogiad pob partner ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn;**
- **Ymgymryd ag adolygiad o strwythur a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd ar ôl mynegi uchelgais a gweledigaeth newydd y Bwrdd (gan ddilyn yr egwyddor fod ei ffurf yn cael ei bennu yn ôl ei swyddogaeth);**
- **Cychwyn ar daith tuag at drawsnewid ar draws trefniadau partneriaeth Awdurdod Lleol i redeg ar y cyd â chamau i drawsnewid y Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r cyfuniad presennol o**

sgiliau o fewn yr Uned Partneriaethau Strategol gan roi sylw arbennig i dadansoddiad ystadegol.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Sioned Rees i godi pryderon y BGLl mewn perthynas â chyfyngiadau arian grant gyda Llywodraeth Cymru.**
- **Sioned Rees i gysylltu â sefydliadau sy'n bartneriaid sy'n absennol o gyfarfod heddiw i godi eu hymwybyddiaeth o'r ddyletswydd i gefnogi'r BGLl.**
- **Anwen Davies i drefnu sesiwn sy'n cael ei hwyluso ar gyfer aelodau o fewn 6 – 8 wythnos.**

4. Y CYNLLUN INTEGREDIG SENGL (CIS)

Trafododd aelodau'r BGLl y cynnydd a wnaed hyd yma o ran datblygu'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn ynghyd â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei gwblhau a'i gyhoeddi.

PENDERFYNWYD:

- **Diweddaru'r CIS fel y mae yn y cyfnod hwn yn ei ddatblygiad i gynnwys yr hyn a gytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd heddiw cyn ei gylchredeg i'w gymeradwyo gan aelodau'r BGLl drwy e-bost.**
- **Cyflwyno'r CIS sydd wedi'i ddiweddaru i'r pwyllgorau craffu o fewn y ddau Awdurdod Lleol.**
- **Datblygu CIS diwygiedig dros y flwyddyn nesaf i adlewyrchu canlyniadau taith bresennol y Bwrdd tuag at drawsnewid.**

5. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>

I'w gadarnhau.